Cyfres yr 20fed Ganrif

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 15. Rhif 1.] IONAWR, 1915. [Pris 2c

CYNNWYSIAD.

Ar Edyn Ffydd.
Nodion y Mis.
Y Dyn a'r Cornet. Anthropos.
Ymweliad a'r Iseldiroedd.
Parch. E. Ceredig Jones, M.A.
Mathau o Bwdu.
Dychweliad Caethiwed Bethel.
Henry Machnog Jones, Llandyssul.
Papyrau Achlysurol.
Nefoedd.
Meddyliau Da ar Gyfer Amseroedd Drwg.
Y Diwygiad.
Priodas. Marwgofion.
Manion ac Hanesion.
Congl yr Awen.



Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr. Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

YN AWR YN BAROD—

'Y BEIBL: YR HYN YW A'R HYN NAD YW'

GAN Y PARCH. JOSEPH WOOD.

(WEDI EI GYFIEITHU I'R GYMRAEG).

Pris 1/-; drwy y Post 1/1½. I ddosparthwyr, 7 copi am bris 6.

I'W GAEL O SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

TALIADAU.

R.G.D., Blaenrhondda; T.J.J., Bangor; Inspector T., Ferndale; J.T., Droitwich; J.D., Letterston; J.J., Neath; R.L., Ton Pentre; D.D., Lampeter; E.J.T., Swansea; J.G.J., Cwmnewydd; Miss J., Gelliaur; D.D., Gorseinon; G.J., Pencarreg; W.J.P., Newton; D.S., Bwlchyffin; J.H.E., C.N. Emlyn; H.H., Birmingham; S.D., Coedpark; Mrs. D.J.T., Cribyn; E.J., Abergorlech; Miss L., Dowlais; J.D.D., Cwmgwrach; E.L., Bedlinog; Dr. D.J.D., Aberystwyth; D.M.D., Aberaman; J.J., Cribyn; D.J., Tydwgi; D.J.G., Ferndale; Myrddin Fardd, Chwilog; Miss J., Riverside; D.D., Gwardafolog; Mrs. J., Maesllyn; D.E.B., Llwyneinon; R.D.D., Maerdy; J.E., Nantymoel; R.L., Merthyr; W.L., Felindre-uchaf; Miss G.E., Llandyssul; J.S.E., Aberdar; Miss M.J., Port Talbot.

'Crwth Dyffryn Clettwr'

PRIS (LLIAN) 2/-. CLUDIAD 2g. Y COPI.

Ychydig Gopiau heb eu gwerthu.

I'W CAEL O

SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD. IONAWR, 1915. [CYF. XV. RHIF 1.

AR EDYN FFYDD.

"Nid wyf yn bwrw ddarfod i mi gael gafael, ond un peth, gan anghofio y pethau sydd o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau sydd o'r tu blaen: yr ydwyf yn cyrchu at y nod am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu."—Paul.

O Dduw, pan yn sefyll fel hyn ar y trothwy rhwng yr hen flwyddyn a'r flwyddyn newydd, trown ein wynebau atat ti, a cheisiwn dy fendith. Mae'r hen wedi myned, ac wedi cludo gobeithion a thrysorau fyrdd yn ei chol—cyfeillion anwyl wedi ein gadael na chlywn ni swn eu traed byth mwy. Dysg ni oll, O Arglwydd, i gyfrif ein dyddiau fel y dygom ein calon i ddoethineb.

Yn ystod y flwyddyn newydd galluoga ni, O Dad, gyda help profiadau amrywiol blynyddoedd y gorphenol, i wneud defnydd gwell o'n manteision a'n cyfleusderau. Taer weddiwn arnat, O Dduw, i droi ein calonau, bawb o honom, unwaith eto at heddwch Meddianner brenhinoedd a llywodraethwyr y gwledydd, a ninau hefyd, a mwy o'r yspryd a'r ewyllys da a nodweddent fywyd Tywysog Tangnefedd. Cladder y cleddyf a dyger yr aradr a'r bladur i waith yn ei le.—Amen.

1.

Mynd, O Dduw, mae ein blynyddau,
Wele eto un ar fynd,
A'i gobeithion a'i thrysorau,
Gyda llawer câr a ffrynd;
Dygodd i gartrefi filoedd
Ofid trist a galar mawr,
Och i erchyll waith rhyfeloedd
Ar deuluoedd daear lawr.

2.

Dygodd hefyd, nac anghofiwn,
Ini fil o roddion rhad,
Am yr oll yn awr diolchwn
Iti'n Duw a'n tirion Dad;
Mae ein cais a'n gweddi eto
Ddechreu'r flwyddyn newydd hon,
Par i bob rhyfeloedd beidio,
A rho heddwch yn mhob bron.

NODION Y MIS.

WRTH siarad yn Walworth, dydd Sul, gwnaeth Syr Oliver Lodge, y gwyddonydd enwog, fynegiad tarawiadol o'i ffydd ysbrydol, gan ddadgan ei gredinıaeth ddiysgog mewn

Bodolaeth ar ol Angeu,

a'i fod wedi bod yn dal cymmundeb a chyfeillion ymadawedig. Unwaith y sylweddolid fod ymwybyddiaeth yn rhywbeth y tu allan i'w beiriannwaith ei hun, yr oeddym yn sylweddoli fod parhad bodolaeth yn naturiol y peth mwyaf syml. Yr oedd yn afresymol fod yr enaid yn neidio allan o fodolaeth pan ddinystrid y corph. Nid oeddym yn cael ein cyfyngu i'r ychydig flynyddoedd fyddem yn byw ar y ddaear hon. Elem yn mlaen hebddo. Byddem yn sicr o barhau i fodoli. Paham y dywedai hyny? Dywedai ar dir gwyddonol pendant. Dywedai ef am y gwyddai fod cyfeillion neillduol iddo yn parhau i fodoli, a'i fod wedi bod yn siarad a hwy. Yr oedd

Cymmundeb a'r Ymadawedig

yn bossibl. Rhaid oedd ufuddhau i'r deddfau, a chael allan yr ammodau. Nid oedd yn dyweyd ei fod yn hawdd, ond dywedai ei fod yn bossibl, ac yr oedd wedi ymddiddan â hwy mor wirioneddol ag y gallai ymddiddan a rhywun yn y gynulleidfa y diwrnod hwnw. Gan eu bod yn ddynion gwyddonol yr oeddynt wedi rhoddi prawf ei fod yn beth gwirioneddol, nid ffug, nid rhywbeth yn deilliaw oddiwrtho ef. Yr oeddynt wedi rhoddi prawfion pendant. Yr oedd rhai o honynt yn cael eu cyhoeddi; eraill yn cael eu cadw yn ol ar hyn o bryd, ond a gyhoeddid yn ddiweddarach. Yr wyf yn dyweyd wrthych ei fod gyda'r holl nerth argyhoeddiadol a feddaf—ei fod felly, ein bod yn parhau i fodoli, fod pobl yn parhau i gymmeryd dyddordeb yn y pethau sydd yn myned yn mlaen, eu bod yn parhau i'n helpu, ac yn gwybod mwy am bethau nag ydym ni, a'u bod yn abl o bryd i bryd i gymmundebu â ni.

Gwn fod hyn yn fynegiad aruthrol, ac

Yn Farn Aruthrol.

Nid wyf yn meddwl fod llawer o honom yn sylweddoli y fath gasgliad mor bendant ydyw. Gwyddent, nid yn unig ei fod ef, ond fod llawer o ddynion gwyddonol yn barnu yr un fath, a llawer o ddynion oeddynt heb fod yn wyddonwyr. Wedi i ddyn roddi deng mlynedd ar hugain neu ddeugain mlynedd o'i oes i'r ymchwil yma, yr oedd ganddo hawl i fynegi canlyniad ei ymchwil. Rhaid cael tystiolaeth, wrth gwrs; ac yr oedd hyny i gael ei gofnodi mewn cyfrolau. Yr

oedd y dystiolaeth hono nid ar gyfer ymddiddan achlysurol, eithr at ei astudio yn ddifrifol. Gwn fod dyn yn cael ei amgylchynu gan fodau eraill. Unwaith yr ewch tu hwnt i ddyn nid oes yr un cyfyngiad hyd nes y deuwch at y

DOETHINEB DWYFOL EI HUN.

Unwaith yr ewch tu hwnt i ddyn, yr ydych yn myned yn mlaen hyd nes y deuwch at Dduw ei hun. Yma yr ydym yn cael ein cyfyngu mewn amrywiol ffyrdd, ac yn ddall i lawer sydd yn myned yn mlaen o'n cwmpas; ond dywedai wrthynt eu bod yn cael eu hamgylchynu gan fodau yn gweithio gyda ni, yn cydweithredu â ni, ac yn ein helpu.

* * * *

Un o bregethwyr mwyaf dylanwadol yr oes bresenol yw y Parch. John Hunter. Trueni ei fod yn myned yn hen. Ebe fe mewn pregeth yn ddiweddar—y gwir Gristion yw'r dyn sydd yn y byd o bethau gweledig yn meddwl, yn teimlo, yn actio, megys yn ngolwg yr anweledig a'r tragwyddol. Dyna fel y gorphena ei bregeth ar Sylwedd-olrwydd yr Anweledig. Rhaid i grefydd barhau byth yn hen, byth yn newydd. Cofleidir amser gan dragwyddoldeb. Camsyniad yw tybied fod Sinai, Horeb, yr Olewydd, yr unig bwyntiau cyffyrddiad rhwng Duw a dyn. Y mae Ysgol Jacob eto yn aros yn mhob diffaethwch. Nid yw'r orsedd wen fawr ddim yn mhell, y mae wedi ei gosod i fyny yn ein bywyd ni. Yr ydym yn sefyll yn awr, y funyd bresenol yn ei phresenoldeb. Nid rhywbeth yn perthyn i'r gorphenol yw'r sylweddolion mawrion anweledig. Perthynant i'r awr hon—i'n dydd ni ein hunain. Y mae pob profiad bywyd yn ad-daliad (*retribution*). Nid oes cymaint ag un curiad gwaed yn pasio rhwng y meddwl, y gair, y weithred, a'u heffaith ar y caritor. Nid rhywbeth yn perthyn i'r dyfodol yn unig yw nefoedd ac uffern, y maent yn sylweddion presenol heddyw. Caritor yw barn Duw ar y bywyd. Caritor sy'n creu cyflwr ac yn penderfynu tynged. Y sylweddion mawrion, anweledig hyn, nid pethau i ddadleu yn eu cylch ydynt, ond pethau ymarferol i roi help ac ysbrydoliaeth yn mywyd pob dydd.

* * * *

Rhagfyr 16, 1914, oedd dau canmlwyddiant genedigaeth George Whitefield, yr hwn a fu farw 1770. Llanwodd Whitefield le mawr yn hanes Prydain Fawr. Gwnaeth waith mawr yn ei ddydd fel cenadydd dychrynfeydd Mynydd Sinai. Yn fynych fe welid ugain a deng mil ar hugain yn tyru ar ei ol i wrando arno. Tua'r un adeg y cododd John Wesley hefyd; a Howel Harris a Daniel Rowland yn Nghymru. Rhyngddynt fe ddeffrowyd y wlad o'i chysgadrwydd. Tymor dyddorol yn hanes crefydd yw tymor y pedwar hyn. Cyd

weithiai Whitefield a Wesley am rai blynyddau, a dygwyd gwedd newydd ar bethau yn y byd crefyddol yn Lloegr a Chymru. Calfin oedd Whitefield, Armin oedd Wesley. Aeth Lloegr ar ol yr olaf, a Chymru ar ol y blaenaf. Calfiniaid rhonc oedd Rowlands a Harris. Dyma'r adeg y daeth Methodistiaeth Cymru i fodolaeth. Y mae Methodistiaeth Cymru a Methodistiaeth Lloegr yn ddau beth gwahanol iawn.

* * * *

Rhyfedd yw hanes treigl dyn. Aeth John Wesley i Rydychen o Ficerdy yn y wlad, a George Whitefield o dafarndy y *Bell* yn Nghaerloyw. Meddianwyd y ddau gan awydd angerddol i ddiwygio cymdeithas ac i achub eneidiau. Llefarent lle bynag y caent wrandawyr, heb osod y pwys dyladwy (?) ar Jerusalem a Gerizim. Anwybyddent y syniad cyffredin mai'r pwlpud cysegredig yw'r unig fan penodol i draddodi'r genadwri gyda'r canlyniad i'r awdurdodau gau pwlpudau'r Eglwys yn eu herbyn. Dilynasant hwythau esiampl yr un "mwy na phroffwyd" hwnw gynt fu'n pregethu ar fynydd a maes a môr.

Rhaid fod rhywbeth heblaw y Pum Pwnc yn rhai o bregethau Whitefield. Er i'w bregeth gyntaf, yn ol yr hanes, yr hon a draddodwyd ganddo yn 21ain oed, yru pumtheg o'i wrandawyr yn wallgof. Amlwg mai pregeth o nodwedd arall glywodd yr enwog Benjamin Franklin ganddo. Pregeth at ryw amcan elusengar oedd hono, a dyma'r effaith gafodd—yn gyntaf fe bregethwyd yr arian cochion allan o'i boced, yna y rhai gwynion, ac yn ddiweddaf oll y rhai melynion, nes oedd y boced yn wag, pob *coin* yn ei elw, oll wedi myn'd dan ddylanwad hyawdledd y llefarwr!

Ni chytunai y ddeuddyn enwog, fodd bynag, yn eu duwinyddiaeth, a darfu iddynt ymranu yn 1741. Yn mhen amser, fel dynion call, aethant at eu gilydd drachefn, ac arferai Whitefield ddweyd mai Wesley oedd i bregethu yn ei angladd ef, ac felly y bu.

* * * *

Yn hanes bywyd Dr. Fairbairn, yr hwn sydd newydd ddod allan o'r Wasg yn gyfrol 12/-, cawn hanes treigl meddwl dyn mawr. Anibynwr oedd Dr. Fairbairn. Cychwynodd ei yrfa grefyddol yn uniongred, yn efengylaidd, yn ol mesur yr eglwysi poblogaidd. Collodd ei angorfa cyn hir wedi iddo sefydlu yn y weinidogaeth. Rhoes ei eglwys i fyny, ac aeth i'r Almaen i gael gwel'd a oedd modd cael adferiad. O dan ddylanwad Hegel, yn benaf, fe symudwyd ei amheuon, a theimlodd ei draed dano. Ni ddywedir dim pa un a oedd ei gred yn iawn ai nad oedd—pa un a oedd yr un ag o'r blaen; ond fe ddywedir na ddarfu iddo gael dim trafferth byth mwy, er iddo ymeangu ac addfedu, mwy neu lai. Nid yw ei fywgraffydd (Dr. Selbie) yn caniatau iddo fawr o'r gallu adeiladol (*constructive*), a dywed na ddarfu iddo erioed deimlo yn hapus yn nghwmni Ritschl, Wellhausen a Harnack. Am ei lyfr diweddaf sydd wedi cael derbyniad gwresog yn Nghymru, yr hwn yw ei lyfr pwysicaf hefyd, sef "*Studies in the Life of Christ*," a gyhoeddwyd yn 1880, fe ddywed Dr. Selbie—"*It*

has long since been superseded," a hyny yw, fel y dywedwn ni, y mae *out of date.*

* * * *

Y mae Esgob Lincoln wedi bod yn achwyn ar y darllen gwael a glywir yn y pwlpudau y dyddiau hyn. Dywed ei fod wedi clywed darllen mor gyflym ac anghroyw fel nad allai ond ychydig ddilyn a deall. Y mae wedi clywed penodau ardderchog y proffwyd Esaiah yn cael eu darllen fel pe byddent *scrap* o golofnau y newyddiadur. Ni welodd un arwydd fod yno deimlad o fawredd ac ardderchogrwydd y farddoniaeth, difrifoldeb y genadwri, na'r pwysigrwydd fod y darllen yn gyfryw ag y gallai'r gwrandawyr ddeall. Bwriadwyd y cerydd, yn benaf, feallai, i'r offeiriad; ond ni wnai un niwed pe gwnai ambell bregethwr Anghydffurfiol wrando.

* * * *

Y mae Mr. Jeffs, Golygydd y "*Christian World Pulpit*" newydd gyhoeddi llyfr ar Bregethu Darluniadol (*Portrait Preaching*). Gallwn feddwl ei fod yn awgrymladol iawn. Dadgana ei syndod na fyddai mwy o bregethu o'r fath yn bod. Fe ddyry rhyw bump-ar-hugain o ddarluniau, neu yn hytrach, ddesgrifiadau darluniadol, ac yn eu plith cawn ddarlun o Ebed-Melech (gweler Jeremiah 38: 7; 39: 16). Cydymdeimlwn ag awgrym yr awdwr, ond ofnwn mai llwybr anhyffordd fyddai i lawer pregethwr. Rhydd gyfleusdra ardderchog i drethu tipyn ar y dychymyg. Nid ym yn clywed neb yn gweithio ar y maes helaeth oddigerth y Parch. John Davies, Alltyplaca, ac ni chlywsom ef ond unwaith, hyny yw, yn ei bregeth dlws ar Abiah Bach.

Y DYN A'R CORNET.

Gan Anthropos.

Yr oedd cynhebrwng bychan, di-addurn yn pasio drwy yr heol. Dim ond dau neu dri o weision 'tloty'r undeb' oedd yn dilyn yr elorgerbyd.

'Pwy sydd yn cael ei hebrwng i'r gladdfa?' meddem, wrth gydnabod oedd yn sefyll ar y palmant.

'A ydych yn cofio'r dyn hwnnw fyddai'n arfer chwareu'r *cornet* ar ystrydoedd y dref yma?'

'Ydwyf, yn sicr. Bum yn gwrando arno ddegau o weithiau.'

'Wel, y fo sydd yn cael ei gladdu,—wedi marw yn y 'wyrkos.'

II.

Oeddwn, yr oeddwn yn ei gofio, er's rhai blynyddau, bellach, yn chwareu alawon poblogaidd y dyddiau gynt, ac yn dibynnu ar 'ewyllys da' y rhai a ddigwyddent fyned heibio. Dyn tal, lluniaidd, a gwedd filwrol arno. Nid oedd ei wisg ond salw; ond yr oedd rhywbeth yn ei edrychiad a'i osgedd oedd yn peri i chwi dybied iddo weled gwell dyddiau. Ei unig foddion cynhaliaeth, yn yr adeg y daethum i'w 'nabod fel 'dyn ar yr heol' ydoedd y—*cornet*. Yr oedd hwnnw, hefyd, wedi gweled amser gwell. Ond yr oedd ei nodau yn hyfryd i'r glust, yn enwedig o'r pellter. Yr wyf yn meddwl mai y tro cyntaf i mi glywed 'swn y *cornet*' ydoedd ar noson dawelfwyn yn niwedd haf. Pa faint o amser sydd er hynny nis gallaf fod yn sicr. Ymddengys y peth yn agos iawn heno. Yr alaw ydoedd '*The Last Rose of Summer*.' Sefais i wrando. Yr oedd yr hwyrddydd yn dyner, a berw y dref wedi gostegu. Ehedai y nodau hiraethus gyda'r awel, a melus oedd eu sain.

III.

Rywdro, wedyn, daethum i wyddfod y cerddor, ac wedi rhoddi rhywbeth yn y 'casgliad,' gofynais iddo chwareu y '*Last Rose of Summer*.' Daeth sirioldeb i'w lygad pan ddywedais fy mod wedi ei chlywed ganddo o'r blaen, ac wedi cael pleser wrth wrando, er ei fod ef ei hun yn anweledig

'*That is my favourite air*,' meddai, ac aeth rhagddo i ddweyd ei fod wedi ei chwareu mewn neuaddau cyhoeddus yn Lloegr, ond—

'Ie, mi wyddwn fod yna 'ond' yn ei hanes.'

'Ewch rhagoch,' meddwn, 'mi gewch gystal gwrandawr ag a gawsoch erioed.'

Chwareuodd yn gampus y tro hwnnw. Hwyrach ei fod yn cael ei gipio, yn swn y nodau, i ryw neuadd fawr; goleuadau disglaer yn tanbeidio o'i amgylch, a mil o wynebau yn syllu ar y gwr a ganai gyda'r *cornet*. Pa wahaniaeth—yn y munudau gwefreiddiol hynny—fod y palmant yn llaith a'i esgidiau yntau yn gandryll? Yr oedd 'Rhosyn olaf yr haf' yn gwrido yn ei adgofion, a'r miwsig yn ei gludo i'r baradwys a fu.

IV.

Fel y rhelyw o'r bobl sydd yn gorfod byw o'r 'llaw i'r genau,' yr oedd ganddo lygad craff. Adwaenai ei gwsmeriaid, a moesgrymai yn barchus iddynt, pan yn digwydd ei gyfarfod ar y stryd. Nid cardotyn

gwasaidd ydoedd. Yr oedd yn teimlo fod ganddo un ddawn werthfawr, er ei fod yn isel ei amgylchiadau. Nid pawb a fedr chwareu *cornet*! Gallai ugeiniai o bobl, fwy trwsiadus nag ef, ei basio yn uchel eu ffroen. Ond, atolwg, pa nifer ohonynt fedrai chwareu y '*Last Rose of Summer?*' Y mae celf yn ennyn rhyw ymdeimlad yn ei pherchen nas gall tlodi, na dim arall, ei ddiwreiddio yn llwyr. Sut y dywed Elfed?

'Bu Miltwn unwaith yn dlawd,
A Pharadwys o dan ei ddwylo.'

Tebyg oedd hanes y dyn a'r *cornet*. Pan yn symmud ei fysedd ar yr offeryn oedranus, teimlai fod y Wynfa yn dychwel ato, ac yn cludo persawr rhosyn ola'r haf. Wedi'r cwbl, y mae y dyn fedr wneyd rhywbeth cain—canu cân, neu gynyrchu melus sain—yn haeddu cael ei gydnabod. Athrylith yw athrylith, er mewn carpiau.

V.

'Sut y daeth hi felly!' ebai'r moesolydd. Ac wedi gofyn y cwestiwn y mae yn myned o'r 'tu arall heibio.'

Ie, hen gwestiwn yr oesoedd ydyw hwnnw. Pa fodd y tywyllodd yr aur coeth? Sut y mae'r eryr yn disgyn i'r pridd tew a'r clai tomlyd? Paham nas gallai athrylith—ferch y nef—gadw ei gwisg yn wen? A ydyw y nwyf a'r teimladrwydd sydd yn nodweddu perchen athrylith yn ei wneyd yn fwy agored i ddylanwadau da—a drwg? Angel oedd y cyntaf i syrthio, onide? Nid abwydyn. Ac engyl sydd yn cwympo o hyd.

VI.

Beth am y dyn a'r *cornet?*

Cododd fymryn o gwrr y llenn, ar ryw adegau, pan fum yn siarad ag ef. 'Yr oedd fy nhad yn arweinydd y *band* yn Portsmouth,' meddai, 'ac yr oedd y *band* hwnnw yn un o'r rhai goreu yn y deyrnas. Dysgais innau chwareu, er yn blentyn. Cefais le, yn y man, fel *cornet player* yn Llundain. Bum yn chwareu o flaen y Teulu Brenhinol. Ond, yn raddol, cefais fy hudo i'r tafarnau. Collais fy lle yn Llundain, a bum mewn amryw fannau yn ceisio ennill bywoliaeth. Cefais brofedigaethau teuluaidd, a llawer blinder arall, a suddais yn is ac yn ddyfnach, nes myned o'r diwedd yn grwydryn digartref—wedi colli pobpeth—ond y *cornet*. Ac felly, rywfodd, y daethum, ar ddamwain, i'r dref hon. Ac yr wyf wedi cael mwy o garedigrwydd yma nag a gefais yn unman arall. Y mae'r Cymry yn bobl ffeind iawn, ac yn gwybod beth ydyw miwsig.

VII.

Aeth haf a gauaf heibio, a sylwn fod iechyd y cerddor crwydrol yn myn'd yn fwy bregus. Llwm oedd ei gotwm. Teneu oedd ei gorph,

a llwyda'dd oedd ei ruddiau. Gwnai ymgais ar hwyrnos gauaf i chware y *cornet*. Ond trist oedd ei wrando yn ceisio myn'd dros yr hen alawon. Yr oedd rhyw brudd-der yn ymdaenu drosof pan yn clywed y '*Last Rose of Summer*,' ar noson wleb, ddryghinog, yn y gauaf. Yr oedd swn y gwynt yn boddi y nodau, a'r gân fel ysbryd yn crwydro drwy unigeddau y dymhestl a'r nôs—

'*The last rose of summer*
Left blooming alone.'

Yn y man, aeth yn rhy lesg i chwareu ei offeryn cerdd. Cerddai yr heol yn araf, ar bwys ei ffon, a'r *cornet* o dan ei gesail. Druan gwr! Wedi myned yn rhy wan i chwythu yn yr udgorn.

VIII.

Ond yr oedd gweddillion y 'gwr bonheddig' yn amlwg ynddo yn nyddiau ei ddarostyngiad. Derbyniai ewyllys da ei 'edmygwyr,' am fod yn rhaid iddo wrth dipyn o gynorthwy i bwrcasu tamaid o fwyd a lletty nôs. A phan yn derbyn y rhodd ymesgusodai am ei anallu i chwareu y '*Last Rose*.' Yr oedd y 'rhosyn' wedi gwywo. Nid oedd yn aros ond cysgod o ddyn, a'r *cornet* yn fud dan ei fraich. Byddai rhyw iâs yn cerdded drosom wrth edrych arno—dim arwyddlun y gelf gain yn aros.

'Drych o dristwch oedd edrych drosto.'

IX.

Diflannodd. Cauodd ei lygaid ar fyd y gofidiau yn nhlotty'r undeb. Bachgen y '*bandmaster*' yn Portsmouth; etifedd y ddawn gerddorol; un fu yn swyno y torfeydd! Ond fel yna y daeth y diwedd. A dyna ei angladd yn pasio heibio, heb gâr na pherthynas yn ei ddilyn, nac yn wylo deigryn ar ei ol.

Ond, i mi, yr oedd swn y *cornet* yn d'od yn ol, a theimlwn fod rhyw ddylanwad cyfrin yn amgylchynu'r olygfa, ac

'Yn dilyn ei elor a'i odlau ei hun.'

Onid oedd seindorf anweledig yn chwareu '*The Last Rose of Summer*?'

Nis gwyddwn ei enw priodol. Digon rhyfedd oedd hynny, erbyn meddwl, a minnau wedi siarad ag ef am lawer o bethau yn hanes ei fywyd. Ond nid wyf yn cofio iddo fynegi ei enw.

Bellach, y mae wedi myned yn rhy ddiweddar i holi am dano. A'r tebyg ydyw mai mewn congl ddienw y gorwedd ei weddillion, heb 'garreg arw na dwy lythyren,' i ddynodi 'man fechan ei fedd.'

YMWELIAD A'R ISELDIROEDD.

Ychydig flynyddau yn ol cefais yr hyfrydwch a'r budd meddyliol o dreulio fy ngwyliau hâf yn Belgium a Holland, neu yr Iseldiroedd fel y gelwir y gwledydd hyny. Ar lawer ystyr mae y ddwy wlad yn ddyddorol iawn i ni fel Cymry. Yn un peth y maent

YN GENHEDLOEDD BYCHAIN

fel nyni, ac y maent yn llawn o'r yspryd cenedlaethol. Peth arall a'u gwna yn ddyddorol i ni yw y ffaith mai oddiyno y daeth y Fflemingiaid i Sir Benfro a Bro Gwŷr yn Morganwg, yn nheyrnasiad Harri y Cyntaf, pan gymerodd y môr feddiant o ran helaeth o'u treftadaeth. Ond wele yn awr elyn ar eu gwarthaf sydd yn llawer mwy creulon na'r môr. Rhyfedd fel y mae hanes yn ail-adrodd ei hun. Gwelir yn awr drwy holl Gymru bron

FFOEDIGION O BELGIUM

fel yn y flwyddyn 1112. Y mae golwg frawychus arnynt, a hawdd yw canfod eu bod wedi myned drwy brofiadau llym. Nid sŵn berw y môr sydd yn eu clustiau hwynt, ond erchyll ruadau y magnelau a gruddfanau y clwyfedigion. Y mae eu cartrefi wedi eu hanrheithio, eu perthynasau a'u cyfeillion wedi eu lladd, a'r oll a feddianent wedi myned ar goll. Pan ymwelais â Belgium yr oedd y wlad yn llawn o drigolion diwyd a hapus. Erbyn hyn y mae y cyfan wedi cyfnewid. Y mae llawenydd yr holl genedl wedi ei droi yn dristwch a'u cân yn gwynfan.

Flwyddyn fy ymweliad cynhelid y Gynhadledd Gydgenedlaethol mewn cysylltiad â'r enwad Undodaidd ac eglwysi rhyddion ereill, yn Amsterdam, prifddinas Holland, a phenderfynais weled y lleoedd mwyaf dyddorol yn yr Iseldiroedd ar yr un siwrne. Cefais gwmni siriol bonedd-wr a boneddiges o Bradford a thri o fechgyn newydd adael eu hysgol, rhieni y rhai a ddymunent iddynt weled ychydig o'r byd cyn dechreu o ddifrif ar waith bywyd. Cefais yr anrhydedd o arwain y fyddin fechan hon, a gwnai pawb fy ngwaith mor ysgafn ag y medrent. Yr oedd y daith yn ddyddorol iawn i mi fel Cymro hyd yn oed cyn i mi ymadael a Phrydain Fawr. Adgofid fi yn aml gan enwau llefydd o'r amser pan oedd ein hen iaith yn cael ei siarad yn groew o for i fynydd. Pasiem drwy Llundain, y *llyn ddinas* i Dover, hyny yw y *dwfr* rhyngom a'r Cyfandir. Cawsom y pleser o groesi'r môr mewn tywydd tawel, ac ni theimlai neb o honom yr anhwylusdod lleiaf. Er hyny yr oedd rhai o'r teithwyr yn edrych yn dra gwelw fel pe baent yn parotoi ar gyfer profiad anymunol. Un o'r gwrthrychau cyntaf i dynu ein sylw wedi dyfod i olwg tir oedd

GOLEUDY ENWOG OSTEND,

yr hwn sydd wedi bod yn foddion i achub miloedd lawer o fywydau â'i oleuni llachar. Y mae y goleudy yn awgrymiadol o fywyd y Cristion. Yn ystormydd blinion bywyd, fel ei Athraw, dylai fod yn oleuni y byd.

O'r diwedd glaniasom yn Ostend, lle yr oedd pob peth yn ddieithr i ni.

Cyn myned yn mhellach rhoddaf dipyn o hanes Belgium a nodaf rai o

NEILLDUOLION Y WLAD.

Ffurfir yr Iseldiroedd gan y llaid a gludir i lawr o'r mynyddoedd gan afonydd Ewrop. Haerai Napoleon Bonaparte y cyflenwid y rhan fwyaf o'r llaid gan afonydd Ffrainc, ac felly hawliai y ddwy wlad fel ei eiddo ef. Ond rhoddodd brwydr Waterloo daw

arno. Gwlad fechan ydyw Belgium gydag arwynebedd o un-fil-arddeg o filltiroedd ysgwar. Rhenir hi i naw tiriogaeth fel y rhenir y wlad hon yn siroedd. Gwastad iawn yw i gyd ond yn y dwyreinbarth yn nghymydogaeth coedwig enwog Ardennes lle y mae yn fryniog a hynod ramantus. Yno ymgyfyd y tir mewn manau i ddwy fil o droedfeddi uwch wyneb y môr. Y mae y tir gan mwyaf yn nodedig o ffrwythlon a than driniaeth ragorol. Y mae un rhan o bedair o'r trigolion yn trin y tir. Cyn y rhyfel rhifai'r boblogaeth oddeutu saith miliwn, ac yr oedd yno fwy o bobl i'r filltir ysgwar nag mewn un wlad arall yn Ewrop. O'r amser boreuaf hyd yn awr y mae'r Belgiaid wedi dwyn yr enw o fod yn bobl ddewr. Dywed Iwl Cæsar yn yr hanes a rydd o lwythau Gâl — "*Eorum omnium fortissimi sunt Belgae.*"—"Or rhai hyn oll y dewraf yw y Belgiaid."

Drwy yr oesau hyd 1830 ystyrid Belgium a Holland fel un wlad o dan yr un lywodraeth. Yn amser y Diwygiad Protestanaidd bedwar can mlynedd yn ol ymryddhaodd y ddwy wlad i raddau mawr oddiwrth Eglwys Rhufain; ond yn fuan wedi hyny daeth yr Iseldiroedd yn etifeddiaeth oddiwrth ei dad i Philip yr Ail, brenin 'Spaen, gwr Mari Waedlyd a gelyn penderfynol y Frenhines Elizabeth. Dywedai yr arch-erlidiwr hwn y byddai yn well ganddo beidio cael deiliaid o gwbl na bod yn frenin ar wlad o Brotestaniaid. Felly drwy ei ddewisol was, Duc Alva, gwnaeth bob ymdrech i ddwyn y ddwy wlad yn ol dan ddylanwad Rhufain. Drwy erledigaeth barhaus a phob math o greulonderau llwyddodd yn rhy dda yn ei amcan yn Belgium, a byth oddiar hyny, Pabyddion yw y Belgiaid. Nid oes ond rhyw bymtheg mil o Brotestaniaid yn yr holl wlad heblaw y tair mil o Iuddewon sydd yno. Ond er hyn oll y mae rhyddid i bawb yno i addoli Duw yn ol argyhoeddiadau dyfnaf eu calonau.

I'r Prydeiniwr nad yw wedi bod o'r blaen oddi cartref, y mae yr olwg gyntaf ar Belgium dipyn yn newydd. Ni wahenir y meusydd fel yn y wlad hon gan gloddiau coediog a chysgodol, ond gan gamlasau llydain o ddwfr, ar lanau y rhai y tyf helyg a rhesi ffurfiol o boplar talon. Gyda'r traeth yr holl ffordd y mae gwrthgloddiau uchel i atal y môr rhag gorlifo y wlad. Y mae rhai o'r gwithgloddiau hyn yn naturiol fel y *sand dunes*, neu y creigiau tywod a welir ar lan y môr yn Norfolk, Morganwg, a Lancashire. Mewn manau ereill mae yr awdurdodau yn ofalus i gadw y gwrthgloddiau i fyny, ac y mae y draul o wneud hyny yn fawr yn ystod y flwyddyn. Gan nad yw Belgium yn cadw llynges i amddiffyn ei glanau, gall fforddio yn dda i gadw y wlad allan o feddiant y môr. Y mae ymladd a'r elfenau yn creu dewrder mewn cenedl. Y mae trigolion Cymru ac Ucheldiroedd yr Ysgotland wedi bod yn brwydro drwy'r oesoedd â llwmder y mynyddoedd, a gerwinder yr hinsawdd, gyda'r canlyniad eu bod yn bobl ddewr ac annibynol Ar yr un egwyddor mae ymladd a'r môr i'w gadw rhag llyncu i fyny eu cartrefi wedi bod o fendith i'r Belgiaid.

Nis gall y teithiwr fod yn hir yn Ostend cyn iddo ddarganfod y siaredir dwy iaith yno—y Fflemish gan y bobl gyffredin, a'r Ffrancaeg gan y boblogaeth yn gyffredinol, fel iaith swyddogol y wlad. Fflemish oedd tafodiaith wreiddiol y trigolion fel y mae'r Gymraeg i'r Cymro. Y mae tuedd yn awr i wrteithio'r hen iaith yn Belgium, fel yn Nghymru, ar ol hir esgeulusdod o honi. Yn ddiweddar y mae awduron enwog yn cynyrchu rhai o'u gweithiau yn iaith y bobl, yr hyn a wna y Fflemish unwaith eto yn ddyddorol. Erys yr iaith hyd y dydd hwn yn debyg i'r hyn ydoedd pan ddaeth y Ffleminglaid drosodd i Sir Benfro. Deallir hi gan bobl Holland ac yn rhanol gan Germaniaid y gogledd. Yn nwyreinbarth Belgium siaredir iaith arall, sef y Walloon, yr hon sydd gymysgedd o'r Ffrancaeg a'r Gymraeg. Dyna yw iaith pobl Liege y rhai a ymladdasant mor ddewr ar ddechreu y rhyfel presenol.

Y mae Belgium yn wlad gyfoethog mewn ystyr fwnawl, yn gystal ag amaethyddol. Cyn y rhyfel yr oedd tri chant o byllau glo mewn llawn gwaith yno. Y mae yno hefyd fwngloddiau haiarn, plwm, copr, zinc, a marmor, a chwarelau lle codir llawer o gerig at adeiladwaith. Y mae y wlad wedi bod yn enwog am ganrifoedd am ei llaw-weithfeydd defnyddiau dillad o'r radd uwchaf. Anfonid ei sidanau, ei brethynau aur, a'i gwniadwaith cywrain i holl wledydd Ewrop. Gwneir llawer o offerynau awch yn nwyreinbarth y wlad a gelwir Liege yn Birmingham Belgium.

Y mae y Belgiaid hefyd yn enwog am gerfwaith mewn coed. Gwelir hyn nid yn unig yn ngwychder yr eglwysi ond yn y dodrefn hardd yn nghartrefi y bobl yn ogystal. Gellir dweyd fod yr holl genedl yn cymeryd dyddordeb mawr yn y Celfau Cain, yn enwedig mewn adeiladwaith ac arlunwaith. I'r Belgiaid, fel i'r bardd Keats, y mae pob gwrthrych prydferth yn hyfrydwch bythol.

Fel ag y dywedais, bu Belgium a Holland o dan yr un penaeth am gyfnod maith, ond byth oddiar yr amser y bu Philip yr Ail yn erlid y Protestaniaid ac yn enill y Belgiaid yn ol at Babyddiaeth, teimlai eu blaenoriaid fod y ddwy wlad wedi eu hieuo yn anghydmarus. Gwahaniaethant mewn iaith ac mewn crefydd, a phenderfynodd Belgium ymwahanu a ffurfio llywodraeth o eiddo ei hun yr hyn a wnaeth yn 1830. Y mae Belgium yn frenhiniaeth gyda chyfansoddiad tebyg iawn i'r wlad hon. Ysgarwyd y ddwy wlad yn benaf drwy ddylanwad Prydain Fawr heb ollwng dafn o waed, fel ag y gwnaed yn Norway a Sweden ychydig amser yn ol.

Rhaid i mi yn awr adael hanes y wlad am dipyn er mor ddyddorol ydyw, a rhoddi cyfrif o'm pererindod.

Wedi rhoddi ein *luggage* yn ddiogel yn ein llety, a chael lluniaeth, aethom allan i weled Ostend, yr hon sydd ddinas hardd a phwysig. Er ys amser maith mae wedi bod yn ymdrochle poblogaidd iawn fel Brighton ueu Bournemouth. Yn yr haf y mae yno ryw ddeugain mil o ymwelwyr. Gyda'i draeth llyfn tywodlyd y mae y lle yn Baradwys berffaith i blant. Yno gwelir miloedd o honynt bob dydd yn adeiladu cestyll o dywod—cestyll yn yr awyr, yn debyg iawn fel y gwna llawer o bobl mewn oed.

Gelwir y rhodfa ar lan y môr yn "La Digue," hyny yw y gwrthglawdd, ac yno y treulia yr ymwelwyr lawer o'u hamser. Y mae y gwestai a'r tai anedd ar y gwrthglawdd yn hardd nodedig, a dangosant fod cyfoeth mawr yn y wlad. Yno y mae palas gorwych gan y brenin; a hoffai yr hen frenin, Leopold yr Ail, er cymaint ei wendidau, dreulio llawer o'i amser yn chwareu gyda'r plant ar y tywod. Un o adeiladau mwyaf poblogaidd y ddinas yw y Casino, lle y chwareuir miwsig o'r gradd uwchaf, a lle fel mae gwaetha'r modd, yr oedd un amser lawer o gamblo yn myned yn mlaen. Aethom i glywed y miwsig ond cadwasom yn mhell o awyrgylch yr hap-chwareu, ar yr egwyddor, mai "gwyn fyd y gwr ni rodia yn nghyngor yr annuwiolion."

Golygfa hollol newydd i ni, Brydeinwyr, oedd gweled lluoedd o gerbydau bychain yn cael eu tynu gan gŵn cryfion o rywogaeth y *mastiff*. Y cŵn sydd yn cludo'r llaeth allan ar hyd trefydd Belgium, ac ymddangosant fel pe yn mwynhau y gwaith. Tra bo'r llaeth yn cael ei fesur, eistedda'r cwn yn dawel yn eu *harness* a chodant drachefn i'w lleoedd i fyned yn mlaen at y cwsmer nesaf. Yn y wlad hon ystyrir y ci yn gyfaill dyn, ac fel y cyfryw y mae wedi cael ei siarter o ryddid oddiwrth galed-waith.

E. Ceredig Jones.

(*I w barhau*).

MATHAU O BWDU.

Dywed Rhys Lewis – tybiaf nad oes eisiau dyweyd pwy Rhys Lewis, canys i'r Cymro darllengar nid oes ond un Rhys Lewis – mai un o'r pethau cyntaf oedd yn gofio oedd mynd gyda'i fam i'r capel. Hyderaf fod llawer o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD yn cofio'r adroddiad difyr a gwreiddiol rydd o hanes ei ymweliadau cyntaf a'r capel, yn cofio am y *Nelson Ball* a'i ddylanwad rhyfeddol arno, pan, mewn braw, yr oedd wedi tori allan i wylo.

"YR HEN GAPEL ANWYL!"

meddai, "ti a adewaist lawer argraff ar fy nghof ac ar fy nghydwybod, mi obeithiaf."

Pe gwybuaswn na wnai y darllenydd dybied fy mod am ymffrostio dywedwn mai nid anhebyg yw fy mbrofiad innau i eiddo Rhys Lewis yn hyn o beth, canys pan rof finnau raff i fy nghof rhed yn ol at y capel y magwyd fi ynddo – y capel gyda'i bobl a'i seddau, a'i wasanaeth a'i ganu, yn gynt nag at ddim arall. Gallaf finnau ddyweyd "yr hen gapel anwyl!" Ni rydd dim fwy o blesser i mi na meddwl a chofio am danat ac am y ffyddloniaid fu flwyddi'n ol yn cerdded drwy dy byrth, ac hyderaf mai "melus fydd fy myfyrdod am danat" hyd ddiwedd fy oes.

Yr oedd galeri un pen i'r capel y magwyd fi ynddo, yn yr hon, y rhan fynychaf, yr eisteddai tri neu bedwar o fechgyn ieuainc yn unig, tra y byddai gweddill y gynulleidfa yn y seddau ar y llawr. Un o'r problemau a'm blinai pan yn blentyn oedd pa'm yr elai y bechgyn hyny i'r galeri bob amser, gan fod digon a mwy na digon o le iddynt ar y llawr; a chofiaf fy mod yr adeg hono, a rhaid i mi gyfaddef, efallai y dywed rhai mai fi sydd yn ofergoelus – fy mod i raddau o hyd yn rhyw ddrwgdybio gwrandawyr y galeri ac fel am ameu a ydynt yn feddianol ar yr un yspryd addoli a'r gwrandawyr sydd yn seddau y llawr.

Teimlwn pan yn blentyn mai un ffordd sicr i glwyfo teimladau fy mam fuasai mynd i'r galeri i wrando am dro. Iddi hi buasai hyny yn arwydd sicr nad "oedd

GWREIDDYN Y MATER" YNOF.

Paham y teimlwn, a phaham y teimlaf yn ddrwgdybus o wrandawyr y galeri nis gwn, os nad am y ffaith syml mai gwrandawiad sal rydd gwrandawyr y galeri, fel rheol, pan nad ydynt ond ychydig mewn nifer. Eithriad ydyw iddynt gymeryd rhan yn y canu, nid bob amser y codant ar eu traed ar amser canu; a phan fydd y pregethwr yn ceisio arwain y bobl yn y rhannau defosiynol o'r gwasanaeth, neu yn traddodi ei bregeth, ychydig o sylw sydd gan y rhai hyn i'w roddi iddo gan fod pethau ereill wedi mynd a'u sylw yn barod.

Fel y crybwyllais, dim ond rhyw dri neu bedwar o fechgyn ieuainc oeddent yn arferol o fynd i'r galeri yn ein capel ni, ac nid bob amser y byddai eu hymddygiad yn deilwng o'r tŷ, ac un o'r pethau cyntaf wyf yn gofio am dano yn nglyn a fy hanes fel addolwr bychan yw i'r gweinidog ryw Sul aros ar haner ei bregeth, a chan godi ei olygon i gyfeiriad y galeri, dywedodd yn dawel, "a fyddwch chwi, fechgyn ar y llofft yna, mor garedig a bod yn llonydd." Yna aeth yn mlaen a'i bregeth heb feddwl, mi a dybiaf, ei fod wedi gwneud dim allan o le. Ond nid felly yr oedd hi. Cyn mynd i'r tŷ y noson hono clywais fod un o'r bechgyn yn dyweyd, "Wêl neb mo honof fi mewn capel byth mwy," ac fel 'roedd gwaetha'r modd cadwodd at ei air. Diweddodd ei oes fer, canys bu farw yn gymharol ieuanc, heb ymweled a chapel nac eglwys byth wedi hyny.

Cofiaf glywed amryw o aelodau'r

eglwys pan yn cyfeirio at yr hyn ddigwyddodd, yn dyweyd "trueni ei fod wedi pwdu, canys yr oedd yn fynychwr cyson ond ei fod dipyn yn aflonydd a gwyllt."

Dyna'r tro cyntaf i mi glywed y gair "pwdu" yn cael ei ddefnyddio, a dyna'r engraifft gyntaf gefais o ddyn

WEDI PWDU WRTH EI GAPEL,

a gresyn na allaswn ddyweyd, dyna'r tro olaf hefyd, ond nid felly y mae. Yr wyf yn hen gyfarwydd a chlywed y gair erbyn hyn, ac wedi cael engreifftiau lawer o bobl yn dioddef oddiwrth y dolur hwn. Mae llawer math o bwdu. Fel ag y mae gwahaniaeth rhwng seren a seren mewn gogoniant, felly y mae gwahaniaeth rhwng pwdu a phwdu; arall yw gogoniant y naill, ac arall yw gogoniant y llall, os gogoniant hefyd.

Trueni na fuasai Mark Twain wedi ysgrifenu pennod, neu, o ran hyny lyfr, ar y testun hwn. Teimlaf yn dra sicr y buasai ganddo bethau rhagorol i'w dyweyd arno, canys pwy fel efe, ag eithrio Wil Bryan a allasai ymdrin â thestyn mor sal, a phwy fel efe, ag eithrio'r un gwr, a allasai ei drin mewn modd ag a fuasai yn creu ynom atgasedd bythol at y "mawr ddrwg hwn."

Ble mae'r athronwyr? Dyma gyfle braf iddynt wneud enw iddynt eu hunain. Ble mae'r beirdd? Dyma gyfle am gân neu englyn, os nad am bryddest neu awdl. Mae'r beirdd, amryw o honynt, wedi canu ar ei chwaer ddolur,

"CLEFYD DYDD SUL,"

ond nid oes un o honynt, hyd y gwn i, wedi ychwanegu at lenyddiaeth y byd drwy ganu ar y testun hwn. Dyma gyfle i fardd i anfarwoli ei hun.

Wel, dyna un math, ac fel y tybiaf, y math gwaethaf o bwdu—cefnu ar yr achos yn gyfangwbl gan beidio mynd i un lle o addoliad, a syndod gymaint sydd yn perthyn i'r dosparth hwn. Mae yna amryw fathau ereill, ond, ys dywed y pregethwyr, nis gwnaf ond eu nodi.

Dull ambell un o bwdu ydyw gadael ei gapel ei hun a mynd i ryw gapel arall, ac os bydd wedi pwdu'n enbyd mynd i gapel o enwad arall, ac os bydd y pwdu wedi cyrhaedd rhyw glimacs neillduol mynd i'r eglwys. Dyna eithafbwynt y math yma o bwdu, mynd i'r eglwys, mewn llawer i ardal dyma *nursery* yr eglwys. Y trueiniaid gwirion! Ar bwy y dygant fwyaf o anghlod a gwarth—ar y capel maent yn cefnu arno, ai ynte arnynt hwy eu hunain? Nid oes eisiau ateb. Mae trigolion pob ardal wedi rhoi yr ateb ar hyd y blynyddoedd.

Dull arall o bwdu yw peidio rhoi, neu roi llai na arferent at y weinidogaeth, waeth pwy na beth fu'n achos y tramgwydd, os na fydd y dyn wedi pwdu'n ofnadwy, hyny yw, os bydd "dyn wedi cael peth achos i bwdu," ond nid digon i bwdu ei hunan allan o'r capel rhaid iddo ddangos ei fod yn glaf o'r dolur hwn drwy gadw'n ol, naill ai yr oll neu ynte ran o'r hyn a arferai roi yn y casgliad. Druan o ambell weinidog; mae fel y bwch diangol hwnw gynt, yn gorfod cario baich trwm ar ei gefn yn fynych na fuasai eisiau iddo ei gario, onibai am wamalrwydd a diffyg ystyriaeth o du rhai pobl.

Yspryd y pwdu! Y fath anfadwaith wyt wedi wneud mewn llawer eglwys. Pan mae pethau'n mynd yn mlaen yn dawel a hwylus, os codi di dy ben y fath benbleth gynyrchir, a'r fath anrhefn, y fath yspryd cas ddygir i mewn i'r tŷ ac i'r gymdeithas lle y dylasai cydweithrediad a thangnefedd fod amlycaf. Y fath afael gref sydd genyt ar dy weision a'th forwynion, ac O! mor deyrngarol y maent i ti. Yr wyf am ddyweyd yn onest wrthyt y gwnaet gymwynas fawr a'n heglwysi a thrugaredd fawr a'n hardaloedd pe dianget i'r cysgodion am byth.

Cofiaf i mi, flynyddau yn ol, ddarllen

"WILL BRYDYDD Y COED,"

yn yr hwn y ceir engreifftiau rhyfedd-

ol, ac fel y credwn, yr adeg hono, anghredadwy o bobl ac achosion y pwdu. Desgrifiai un eglwys yn cael ei rhwygo am fod ci un blaenor wedi rhoi curfa i gi blaenor arall. A thrachefn, desgrifiai helynt mawr a gododd mewn eglwys arall am fod rhyw fenyw wedi bod mor hyf a phrynu shôl ag oedd lawn cystal, os nad ychydig yn well na shôl rhyw fenyw arall ag oedd yn gydaelod a hi. Bu'r ci a'r shôl, meddai'r awdwr, yn achos i'r hyn a elwir yn "*split*." Fel yr wyf wedi awgrymu, credwn yr adeg hono fod Brutus yn dyfeisio, os nad yn breuddwydio ei engreifftiau o bwdu, gan mor rhyfedd ac anghredadwy yr ymddangosent. Credwn nad allasai'r hyn a adroddai fod "yn wir, yr holl wir, a dim ond y gwir," er ei fod ef yn haeru eu bod. Erbyn heddyw ni theimlaf yr un anhawsder i gredu. Nid wyf yn Thomas mwyach, canys llawer gwaith yr wyf wedi gwel'd pobl yn pwdu am ddim, ac am lai na dim tae le. Onid yw yn syndod mor ychydig sy'n eisiau ar rai pobl i bwdu?

Y PWDU!

Dyma un o "*common properties*" yr enwadau a'r eglwysi. Gwn nad oes enwad, ofnaf nad oes eglwys yn Nghymru lle nad yw'r gelyn yma wedi dangos ei ben. Yr unig rinwedd, os yw yn rhinwedd hefyd, welaf yn yspryd y pwdu yw ei fod yn anenwadol.

Rhaid fod crefydd yn wyddn cyn y gallasai ddal mor hir a dal mor dda ar waethaf y gelyn hwn. Pa gymdeithas arall fuasai wedi gallu mynd drwy yr hyn mae'r eglwys wedi orfod fynd? I mi, mae y ffaith syml fod crefydd wedi dal ei thir mor dda ar waethaf yspryd y pwdu yn ernes y dal tra pâr dyn i fyw ar wyneb y ddaear.

A. B.

PAPYRAU ACHLYSUROL.

Y mae

YR OLL O'N GWYBODAETH O IESU

i'w chael tu fewn i'r Testament Newydd. Y mae llyfrau ereill a broffesant roi ei hanes. Ond rhaid anwybyddu y rhai hyn am na ellir rhoi un dybyniaeth arnynt. O lyfrau y Testament Newydd nid oes ond pedwar—y pedair Efengyl—yn rhoi ei hanes. Fel hanesion o un fel Iesu y mae'r pedwar hyn yn gymharol fyr. A chymeryd yn ganiataol fod ei fywyd cyhoeddus wedi parhau tua dwy flynedd, nis gall y pedwar fod yn hanes ond cyfran fechan iawn o'r cyfnod hwn. Yna, gellir rhanu'r pedair Efengyl i ddau ddasbarth—y tair gyntaf a'r bedwerydd. Yn y tair gyntaf yn ddiamheuol y deuwn agosaf at Iesu. Yn y tair hyn cawn ffeithiau syml ei fywyd, sylwedd ei addysg, a desgrifiad o'i ddull o daenu ei genadwri. Hanes Iesu geir yn y bedwerydd hefyd, ond tramwyir ynddi dros dir hollol newydd. Rhoddir i ni ynddi olwg ar Iesu hollol wahanol i eiddo'r tair gyntaf. Y mae'r drychfeddwl o'r Gair Dwyfol wedi ymgnawdoli yn Iesu yn rhedeg drwyddi, ac yn rhoi iddi arbenigrwydd. Y mae'r oll o'r pedair yn werthfawr. Heb y tair gyntaf ni fyddai genym ond syniad anmherffaith iawn am Iesu—pa fath un yd-

oedd. Ac y mae'r bedwerydd Efengyl, i'm tyb i,

YN UN O'R LLYFRAU GODIDOCAF A YSGRIFENWYD ERIOED.

Y mae yn werthfawr, nid yn gymaint ar gyfrif ei hanes ag ar gyfrif y drychfeddyliau gogoneddus geir ynddi. Tra y mae'r tair gyntaf yn ein dwyn yn nes at Iesu, y mae'r bedwerydd yn desgrifio'r berthynas rhwng Duw a dyn delfrydol fel yr oedd yn amlygedig yn Iesu. Dyna beth yw'r bedwerydd Efengyl yn benaf—yn fwy felly na llyfr hanes. Y mae yn lyfr hanes. Ond y mae ynddi rywbeth rhagor na hanes. A'r rhywbeth rhagor hwn sydd yn rhoi iddi ei harbenigrwydd a'i gwerth. Priodolir yr Efengylau hyn i Matthew, Marc, Luc, a Ioan. Yr oedd Matthew a Ioan yn ddysgyblion i Iesu, tra nad oedd Marc a Luc felly. Oherwydd gan nad pwy yw awdwr y bedwerydd Efengyl, Ioan y dysgybl yn ddiamheuol oedd yn meddwl y rhai a roisant yr enw i'r Efengyl hon gyntaf. Ni enwir y personau hyn yn un o'r Efengylau hyn fel eu hawdwyr. Ond er yn foreu iawn arferid eu priodoli iddynt hwy. Ai y personau hyn oedd awdwyr yr Efengylau fel y maent sydd ofyniad na ellir rhoi ateb penodol iddo. Nacaol yw ateb y rhan fwyaf o ddysgawdwyr diweddar. Yn nghwrs y ganrif gyntaf ar ol marwolaeth Iesu daeth nifer luosog o hanesion mwy neu lai cyflawn o hono i fodolaeth. Gwneir hyn yn amlwg i ni yn adnodau cyntaf yr Efengyl yn ol Luc. Ac y mae genym dystiolaethau ereill i'n un perwyl tu allan i'r Testament Newydd. Bernir

FOD EIN TAIR EFENGYL GYNTAF NI

wedi eu sylfaenu ar hanesion ereill cynarach. "Dywediadau Iesu" wedi eu cyhoeddi gan Matthew, fel y tybir, yw sylfaen benaf yr Efengyl gyntaf; ac "Adgofion Petr" o Iesu wedi eu hysgrifenu gan Marc yw sylfaen benaf yr ail. A thebyg fod y drydydd Efengyl wedi ei sylfaenu ar y ddau gyfansoddiad hyn, ac o bosibl ereill. Pa mor bell y mae'r bedwerydd wedi ei sylfaenu ar y tair gyntaf y mae yn anhawdd dyweyd. Naturiol yw'r casgliad ei fod yn gyfarwydd a'u cynwys, a'i fod wedi gwneud defnydd o honynt wrth ysgrifenu ei Efengyl ef. Tra sicr ydyw na ysgrifenwyd yr un o'r tair gyntaf yn eu ffurf bresenol am lawer o flynyddau ar ol marwolaeth Iesu. Ni ellir dyweyd yn gywir faint oedd oedran Iesu pan fu farw—efallai oddeutu deuddeg ar hugain. Ni ddaeth yr un o'r tair Efengyl gyntaf i fodolaeth am o leiaf ddeugain mlynedd ar ol hyn. Sut y cedwid yr hanes ar glawr cyn iddo gael ei osod mewn ysgrifen? Fe'u cedwid ar glawr yn y ffurf o adroddiad—adroddid ef gan un person wrth y llall. Yn gyntaf, yr oedd y dysgyblion yn naturiol yn traenu'r hanes a'u holl egni. Yna gwneid yr un peth gan ereill a droid at Gristionogaeth gan y dysgyblion cyntaf. Felly, y côf oedd yr unig gyfrwng drwy yr hwn y cedwid yr hanes yn fyw am rai blynyddau. Nid oedd dim yn hynod yn hyn. Dywedir fod cerdd anfarwol Homer, yr Iliad, wedi ei chadw ar glawr yn y fel hyn am ganrifoedd. Ceisiwn amgyffred beth oedd hyn yn olygu—cerdd o bedwar ar hugain o lyfrau yn cael ei throsglwyddo o un genhedlaeth i'r llall, nid mewn ysgrifen, ond drwy gyfrwng y cof. Dyna Socrates eto: ni ysgrifenodd efe ddim; nid mewn ysgrifenu yr oedd ei athrylith ef yn gynwysedig. Yr ydym yn ddyledus am y wybodaeth a feddwn o Socrates i'w ddau ddysgybl, Plato a Xenophon. Yr oedd trosglwyddo hanes neu lenyddiaeth yn y fel hyn o un genhedlaeth i'r llall yn beth cyffredin iawn yn yr hen amserau. Nid oes dim yn hynod felly yn y ffaith fod hanes Iesu wedi ei gadw ar glawr am ryw gymaint o amser yn y ffurf o draddodiad. Ond wrth ei fod yn cael ei drosglwyddo o un person i'r llall, naturiol oedd fod elfenau newydd yn dod i fewn i'r hanes fel yr oedd amser yn treiglo ymaith. Naturiol oedd fod yr Apostolion, oherwydd diffyg yn y cof neu

oherwydd eu bod wedi camddeall yr hyn a ddysgwyd gan Iesu, yn dwyn i'r hanes syniadau o'r eiddynt eu hunain. Naturiol oedd fod digwyddiadau syml yn cael eu trawsffurfio yn nghwrs amser i fod yn ddigwyddiadau rhyfeddol, goruwchnaturiol. Y mae llawer o hyn oll yn yr Efengylau. Ac yn ein hymchwil am Iesu rhaid i ni gymeryd hyn i ystyriaeth. Hyn hyd y nesaf.

PERERIN.

DYCHWELIAD CAETHIWED BETHEL.

[NOFEL FUDDUGOL WEDI EI SEILIO AR DDIGWYDDIAD ADNABYDDUS]

GAN HENRY MACHNOG JONES, LLANDYSSUL.

VII.

"Mae llawer palas ceinwych
Newidia'i le yn fynych
A bwthyn gwyn y wlad.
Pa fudd yw cyfoeth lawer?
Pa elw geir mewn llawnder
Os na fydd gwir fwynhad."
R. H. Jones.

I bobl Llwyn-y-groes a'r cymydogaethau cyfagos, y lle mwyaf anedwydd y medrent feddwl am dano oedd Preswylfa; a'r dedwyddaf a fedrai eu dychymyg gyfleu iddynt oedd y Castell. Tybient fod gweithredoedd yr Yswain yn hollol unol ag awyrgylch y Palas. Camsyniad o'r mwyaf oedd hyn; 'roedd gan deulu y Castell un ferch ieuanc brydweddol o'r enw Nesta, nid oedd ond tua deunaw oed, ni welwyd yn yr ardal decach merch; er mai anaml y cai gyfle i ymddiddan a neb o'r gymydogaeth; ond os deuai hyny i'w rhan, gwnai hyny bob amser. Nid syn fod hen bobl yr ardal yn methu'n lân a deall pa ddylanwad oedd wedi peri i ferch y Castell ymserchu ynddynt hwy. O'r diwedd daeth y gyfrinach i'r amlwg; tra bu Peredur yn y Palas, yr oedd wedi enill calon Nesta yn llwyr, ag aml dro y buont yn cerdded y llwybrau sathredig o amgylch Llwyn-y-groes, i fyned o olwg y Palas, gan adrodd eu breuddwydion am y dyfodol, er fod yr awyrgylch yn anffafriol iddynt lawer tro, am fod un yn werinwr, a'r llall yn byw mewn amgylchoedd hyfryd, ond:—

"Beth yw mawrfri, uchel achau,
Rhwysg a mawredd bonedd byd?"

pan mae merch wedi ei llwyr enill gan wrthrych ei serch. Ni ddaeth carwriaeth Peredur a Nesta i sylw yr Yswain, hyd droad y bobl allan o Bethel, pryd y methodd ei ferch ddal y gyfrinach yn hwy. Wrth wneud hyny ymbiliodd arno i roddi trugaredd i aelodau Bethel. Ond yr oedd efe am weled ei ferch ryw ddydd yn briod ag un mewn safle, ac ystad eang yn eiddo iddo. A gwyddai yn dda fod rhai o waedoliaeth uchel am ei llaw a'i chalon. Nis gallai ddygymod a'r syniad fod ei ferch ef i briodi mab i bregethwr. Tybiai fod ysbryd ei dadau yn protestio yn erbyn peth o'r fath. Byddai peth fel hyn yn sarhad ar deulu'r Castell. Ac i'r graddau y

cynyddai digter yr Yswain i'r un graddau yn union y cynyddai serch Nesta tuag at Peredur. Efe oedd bobpeth iddi, ac ni elai un diwrnod heibio heb i Nesta eiriol ar ran eglwys Bethel, gael ei thy yn ol. Priodolai'r Yswain ei heiriolaeth ar ran yr eglwys yn Bethel i ddylanwad Peredur Owen arni, a daeth i'r penderfyniad nad oedd dim i'w wneud ond ei gyru oddicattref. "Eu gwahanu am ychydig," meddai, "a dyma ddiwedd ar y cyfan." Nid oedd yr Yswain yn ddigon dynol i gofio na wyr serch ddim am bellter, ac mai anmhosibl alltudio'r ddau rwymwyd gan wir gariad. Danfonwyd Nesta i Goleg yn Lloegr, dylanwadodd hyn yn fawr ar gyfansoddiad y ferch; aeth ei gruddiau oeddynt gynt mor iach ag eiddo bugeiliaid y fro, yn welw; y llygaid oeddynt ddrych cywir o'i mhynwes hawddgar, yn bŵl; cyn i'r amser ddod iddi fyned i ffwrdd, yr hanes aeth fel mellten trwy ardal Llwyn-y-groes oedd fod Nesta yn mron marw. Dygwyd y meddygon goreu yno; bu yn ymyl marw; pan ddaeth ati ei hun, y geiriau cyntaf ddaeth dros ei gwefusau oeddynt,

"Hoffwn wel'd Peredur," er cymaint galon-galedwch yr Yswain, methodd wrthwynebu dymuniad calon ei ferch pan ar wely angeu (i bob ymddanosiad) er cymaint ei ddigter i Peredur, dywedodd wrth ei weision am ei gyrchu mewn cerbyd ar unwaith i'r Palas. Wedi cyrhaedd Preswylfa; 'roedd pawb yno wedi eu taraw a syndod, ag nid heb fawr ymbil y cafwyd gan Peredur i ymddangos yn y Castell, er mai hawdd oedd canfod o'r dechreu mai ei serch tuag at Nesta a orfuai. Wedi cyrhaedd y Castell, gwahoddwyd ef i fyny i ystafell y claf. Wrth ei weled llonodd ysbryd Nesta, er hyny ni ddywedodd ddim ar y dechreu, ond estyn ei llaw iddo, a'r dagrau yn treiglo dros ei gruddiau; yna trodd at ei thad, ag mewn llais isel gofynodd, "Os na chaf fi ei briodi, rhowch allwedd Bethel iddo." Aeth hyn fel saeth i'w galon, methodd ddweyd "na," anfonwyd am yr allwedd, rhoddwyd hi yn llaw Nesta, ac yn grynedig estynodd hi i Peredur. O! 'r fath olygfa mewn ystafell gormeswr, serch wedi toddi ei galon; dylanwad bachgen ieuanc tylawd wedi enill serch ei ferch hawddgaraf; a hyny yn troi yn fendith i ardal gyfan. Wrth ymadael a'r ystafell, trodd yr Yswain at Peredur a dywedodd wrtho, "Deuwch yma at eich gwaith fel cynt, i ddechreu pryd y mynoch," wedi diolch am hyn, a'r croesaw gafodd, ymadawodd a'r Palas, mewn teimladau rhyfedd iawn; mewn llawenydd wrth feddwl fod Bethel yn rhydd; ond yn siomedig wrth feddwl fod un yn gorwedd yn ystafell y Castell, am fod clwyf ar ei chalon, am na chai fod yn rhydd i ddewis cydmar bywyd.

Chwibanai'r gwynt drwy grugau'r coed, a disgynai ambell bluen o eira yn araf araf ar y ddaear, ond nid oedd hyn yn ddim iddo y noson hono, sibrydai wrtho ei hun, "a'i llawenydd i fy mharatoi erbyn y storm yw neges y noson heno. Dyma'r allwedd - ond ar ei wely mae nhad, beth os mai bedd i Nesta anwyl agorir nesaf yn mynwent yr Eglwys?"

VIII.

Mawr oedd disgwyliad teulu Preswylfa i weled Peredur yn dychwelyd o'r Castell, yr oedd y claf ar ei wely, fel wedi bywiocau wrth feddwl am drefn Duw, yn caniatau i'w fab i fyned i Balas y gormeswr mwyaf welodd yr ardal erioed. O'r diwedd cyrhaeddodd Peredur i ystafell wely ei dad, lle hefyd yr oedd ei fam yn gwylio wrth ei wely, –

> "Nosweithiau gauaf oer;
> Pan syrthiai ar y lleni,
> Oleuni llwyd y lloer."

Y peth cyntaf ddangosodd iddynt oedd allwedd Bethel; adroddodd ei holl hanes yn y Castell, a gyda gwên ar ei wyneb dywedodd, "'Rwy'n myn'd nol i'r Castell fel o'r blaen." Methodd Merwydd Owen dewi, "Diolch i Dduw," meddai, "am fuddugoliaeth, maddeued Duw ei

gamweddau iddo, af drwy y glyn dan ganu mwyach," yna trodd at ei wraig a dywedodd, "Bydd Peredur yn sicr o ofalu am danoch ar fy ol i."

Pan oedd ystormydd yn rhuo o'r tuallan, y gwlaw yn curo ffenestri y ty, 'roedd Merwydd Owen yn brwydro yn dawel am wlad fwy cydnaws a'i ysbryd llydan; cyn i'r wawr dori boreu dranoeth, yr oedd efe wedi agoryd ei lygaid ar draethau byd lle nad oes nos yn cyfarfod un o'i phlant. Y Sul ar ol hyn yr oedd angladd Merwydd Owen, ni welwyd y fath gynulleidfa yn ardal Llwyn-y-groes oddiar y dydd y trowyd yr aelodau allan o Bethel. Yr oedd y diwrnod hwn yn un o lawenydd ac o dristwch i'r bobl; llawenhaent wrth feddwl, a gweled fod Bethel yn rhydd. "Wedi'r holl dreialon," mor drist iddynt oedd rhoddi corff eu harweinydd mewn bedd; er ei fod y diwrnod hwnw yn fwy byw iddynt nag erioed. Pwy oedd yno yn mhlith y werin ond Mr. Thomas, y Castell; tynai sylw y bobl, am mai dyma yr unig dro y gwelsant ef mewn angladd un o blant y werin. 'Roedd pawb yn myn'd yn ol i'w cartrefi yn nghanol prudd-der dwys; ond fel mae'r gwanwyn yn deffro anian, gan greu breuddwydion yn mynwes pawb am weled haf, felly yr oedd y diwrnod hwn i aelodau Bethel; 'doedd hwn ond dechreu deffroad, gan greu ysbrydiaeth ynddynt, wrth feddwl fod y dydd yn dechreu cyfnod newydd o ddeffroad i'r ardal yn gyffredinol. A yw rhyddid a'i ofynion mor fawr ac yn cerdded mor drwm fel mae yn rhaid iddo gochi ei ddillad a gwaed? Onid yw ei daith yn mhob oes o allor i allor ac o groes i groes? Wrth wrando profiad yr oesau gellir dweyd am Ryddid "Dwy ran ei helynt, drain a hoelion."

IX.

"Ond ffrwd yw serch nas gellir droi
Yn ol trwy nerth bygythion,
Mwy nas gall creigiau cribog gloi
Gorlifiad ffrwd yr afon;
Os na cha fyn'd yn syth i'w daith
Ddolena'n mhob cyfeiriad,—
Gorchfygu rhwystrau'r byd yw iaith,
A pheuderfyniad cariad.—*Pan.*

Ar ol hyn oll, cafwyd tawelwch yn ardal Llwyn-y-groes, cafodd y bobl bellach, anadlu mewn awyrgylch iach a pherffaith ryddid ganddynt i ymgynull yn Bethel. Aeth Peredur yn ol at ei waith i'r Castell, gan enill serch a ffafr y teulu. Adferwyd Nesta o'i hafiechyd blin, ond ni chlywyd mwyach am ei danfon ffwrdd yn mhell o swn yr ardal. Er fod gweddw yr hen weinidog wedi ei gadael ar ol, 'roedd diddanydd ganddi yn mherson Peredur. A'r sibrydion glywid trwy'r ardal oedd, fod Peredur a Nesta yn cael rhyddid i fod yn nghwmni eu gilydd heb neb o'r teulu yn groes. Ond yn mhen tua blwyddyn ar ol marwolaeth Merwydd Owen, aeth y newydd fel trydan drwy yr ardal fod priodas Peredur a Nesta i gymeryd lle yn Bethel. Y diwrnod hapus a wawriodd, gwelwyd pawb trwy'r fro y boreu hwnw, mewn llawenydd yn ymyl yr hen gapel; gwelid yn crogi wrth bob cangen arwyddion o barch i'r amgylchiad. Llenwid pawb a llawenydd digymysg, wedi'r amgylchiad, wrth feddwl fod Peredur, cyfaill y werin, yn y Palas a'i ddylanwad i greu awyrgylch hapusach eto i'r bobl. Wedi hyn, adeiladwyd palas newydd yn yr ardal gan deulu y Castell, enwyd ef Bryngoleu, er mwyn i Peredur a Nesta fyned iddo i fyw. Cafwyd gweinidog newydd i Bethel, yna dygodd Peredur ei fam i Bryngoleu er rhoddi lle i'r gweinidog newydd. Yn hyn oll sylweddolwyd holl ddymuniadau Merwydd Owen. Bu teulu Bryngoleu yn ffyddlawn i Bethel hyd ddiwedd eu hoes, a'u plant ar eu hol. Mae Merwydd Owen er's blynyddau yn ei fedd, mae llawr aderyn wedi canu uwchben y fangre gysegredig; a llawer gwanwyn wedi dyfod i'r wlad oddiar y dydd y rhoddwyd ef i orwedd yno; ond y mae efe yn ddall i wanwyn, ac yn fyddar i seiniau adar, ond bydd ei gydymdeimlad a'r tylawd, yr anffortunus

mewn bywyd, a'r ddynoliaeth mewn cyfngder yn aros o hyd. Bydd ei hanes fyth yn aros fel perarogl yn Llwyn-y-groes; mae ei ysbryd yn fyw, yn cymell pawb i rodio llwybrau rhyddid. "Nid oes fedd i enw da." "Y tadau a lâfuriasant." Mae'r gŵyr heddyw yn uniawn, y pantiau yn llenwi, a'r mynyddoedd yn cael eu darostwng, ond y Bethel fechan a'i haddolwyr syml a glân, ei phroffwydi gonest a chydwybodol, dynion ofnent ddigon ar Dduw fel ag i beidio ofni dynion, hwy fu yn llefain yn yr anialwch, ac yn taradru'r creigiau, ac wele ninau a aethom i mewn i'w llafur hwynt.

DIWEDD.

NEFOEDD.

Awgrymir yr uchod fel pwnc a all fod o ddyddordeb i ddarllenwyr YR YMOFYNYDD gan erthygl yn y "*Christian Life*," am Tachwedd 21ain, oddiwrth y Parch. Thomas Lethbridge Marshall, y pregethwr hynaf yn yr enwad, a Golygydd yr "*Inquirer*" am lawer o flynyddau, ac un a fu am hir amser yn talu ymweliadau rheolaidd a Choleg Caerfyrddin ar adeg yr arholiadau. Dechreuodd ar ei weinidogaeth yn 1846. Nid "Nefoedd" ydyw pwnc ei erthygl, ond cyfeiria ato, mewn gofyniad Paham y mae'r gair "yn Ngweddi'r Arglwydd" yn y gwreiddiol yn lluosog y tro cyntaf ac yn yr unigol yr ail dro. Gwel Math. 6: 9, 10. Fe welir ei fod yn lluosog y ddau dro yn y Gymraeg ac yn unigol y ddau dro yn y Saesneg. Nid wyf yn gwybod y gallaf ateb gofyniad Mr. Marshall, ond credaf y gall y sylwadau cyffredinol a ganlyn fod yn ddyddorol i'r darllenwyr: –

Defnyddir y gair *nefoedd*, fel rheol, i ddynodi y cartref ysprydol a'r bywyd anfarwol. Priodolir iddo amryw enwau yn yr Ysgrythyrau. I. Fe'i gelwir yn Baradwys (Luc 23: 43), am fod Paradwys neu gartref y dyn cyntaf yn awgrym o'r dedwyddwch hyfryd lle'r oedd yn byw ar y cyntaf. II. Mynwes Abraham (Luc 16: 22), wrth yr hyn y golygir cyflwr o dawelwch i'r cyfiawnion, gan fod cyfeillach Abraham, tad y ffyddloniaid, â Duw yn deffroi yn meddwl yr Iuddew deimladau gwresog o barch a ffyddlondeb. Yr oedd y ddau enw hyn fodd bynag yn cyfeirio at drigfa y da yn y byd islaw cyn yr adgyfodiad, er fod Paradwys yn cael ei ddefnyddio hefyd am y drydedd nef (2 Cor. 12: 4). Ar ol yr adgyfodiad fe sonir III am y Jerusalem nefol (Heb. 12: 22; cymharer Dad. 21: 10, &c.) ar y sail fod y Jerusalem ddaearol yn cyfeirio at y lle y mae Duw yn gwneyd dadguddiadau o'i ras; dichon y geiriau, fodd bynag, nodi nid nefoedd ond yr eglwys Gristnogol fel teml a thrugareddfa Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. Y mwyaf cyffredin, IV, yw nefoedd y llawer o drigfanau yn nhŷ ein Tad (Ioan 14: 2).

Yr oedd syniad yr Iuddew am nefoedd yn rhagori, hyn yn nod yn ei amser bore ar eiddo y Groegwr am Olympus. Syniai am nefoedd fel ffurfafen eang uwch ben, trigfa a chartref neillduol Duw a'i angylion, lle'r oedd Enoch ac Elias, ac yn ol Josephus, Moses hefyd, ond neb arall (Ioan 7: 34). Mewn amser diweddarach aeth yr olwg hon o dan gyfnewidiad ond heb fod yn well. Gwnaethpwyd cyfnewidiadau a gosodwyd allan amryw weddau o nefoedd.

Sonia Paul am drydedd nef (2 Cor.

2 : 2), ac yn Nhestament y Deuddeg Patriarch carir y peth yn mhellach. 1. Y nefoedd gyntaf yw'r lle rhwng y ddaear a'r cymylau ; 2. Lle'r cymylau, dwfr, cenllysg, ac ysprydion drwg ; 3. Yn fwy uchel a mwy dysglaer, trigle y llu o angylion nefol ; 4. Y lle y triga'r saint ; 5. Angylion y presenoldeb dwyfol, y rhai a weddiant am faddeuant pechodau dynion ; yn y 6fed y mae'r angylion sy'n ateb y gweddiau ; yn y 7fed y tywysogaethau a'r awdurdodau y rhai a folant Dduw nôs a dydd.

Y mae y nifer yn amrywio. Ebe Origen, Pa un a oes saith nefoedd neu unrhyw nifer penodol nid yw'r Ysgrythyrau yn penderfynu dim. Y mae'r gwahanol dybiau hyn wedi cael derbyniad yn mhlith Cristnogion.

Gellir rhanu duwinyddion i ddau ddosparth ar y pwnc. Un yn edrych arno fel lle neillduol, a'r llall fel dedwyddwch a rhyddid ysprydol. Y golygiad cyntaf yw eiddo y lluaws, ond y mae yn graddol ddiflanu, tra mae'r llall yn myned ar gynydd. Golyga'r cyntaf fod daioni ysprydol yn dybynu ar y lle y bydd un, tra mae'r llall yn golygu daioni ysprydol ynddo ei hunan yn beth penaf, ac yn awgrymu mai cyflwr nid lle yw nefoedd, ac mor bell ag mae lle yn dyfod i fewn i'r syniad ei fod yn israddol yn ei effeithiau a'i ganlyniadau. Nefoedd, gan hyny, yw'r cyflwr o ddedwyddwch ysprydol ac anfarwol, i'r hwn y mae Duw yn dyrchafu ei bobl ar eu hymadawiad a'r bywyd hwn, y mae hwnw yn myd anweledig yr ysprydion, lle mae Iesu a'r cyfryw hyny y mae Duw yn eu rhoddi iddo (Ioan 17 : 24). Ac yn sicr nid oes posibl i'r Cristion duwiol gael dim yn fwy boddhaus a mwy derchafol na'r sicrwydd y caiff fynd ar ol marw i'r lle y mae Duw yn amlygu ei gariad (Ioan 14 : 28) ; lle y mae Crist (Ioan 14 : 2), lle y gwelant ei ogoniant (Ioan 17 : 24), ac felly y byddwn yn wastadol gyda'r Arglwydd (2 Thess. 4 : 17), yn yr ymarfer a'r mwynhad o'r cariad dwyfol hwnw sydd yn dragwyddol (1 Cor. 13 : 13), yn rhyddid a gogoniant plant Duw (Rhuf. 8 : 21), yn cynyddu'n barhaus mewn gwybodaeth a gallu a daioni (1 Cor. 13).

Y mae eistedd wrth fwrdd yn nheyrnas Dduw yn ffigiwr cryf i ddynodi dedwyddwch nefoedd (Matt. 8 : 11). Ceir dedwyddwch ysprydol yn cael ei osod allan yn fynych dan gyffelybiaeth gwledd (Esaiah 55 : 1, 2 ; Luc 14 : 15 ; Matt. 22 : 1, &c.) Yn y dyfyniad o Matthew sonia'r athraw am ddieithriaid o bell yn cael eu derbyn tra mae plant y deyrnas yn cael eu taflu i'r tywyllwch eithaf.

B.

MEDDYLIAU DA AR GYFER AMSEROEDD DRWG.

Adran bwysig o'r bywyd dwyfol yw cariad a charedigrwydd cyffredinol. Cydnabyddir rhagoroldeb y gras hwn yn rhwydd. Beth all fod yn fwy ardderchog na chalon wedi ei ehangu i gynwys yr holl fyd o'i mewn, calon i ddymuno ac i geisio am les a daioni yr holl fyd, ac i edrych ar les pob dyn fel ei lles ei hun. Ni all dyn sydd yn caru ei gymydog fel efe ei hun byth feithrin meddwl fydd yn wael a niweidiol, na bod yn ddiffygiol mewn geiriau o garedigrwydd : gwell ganddo ddioddef cam fil o weithiau na bod yn euog o wneud cam unwaith. Ni chyf-

rifa ei hun byth yn hapus ond pan fyddo yn gwneud rhyw dda i rywun neu gilydd Ni all malais ac aniolchgarwch dynion wrthsefyll ei gariad. Mae'n pasio heibio y cam a wna dynion ac yn tosturio wrth eu ffolineb. Gorchfyga ddrygioni drwy ddaioni. Yr unig ddial a amcana yn erbyn ei elynion mwyaf chwerw a maleisus fydd pentyru pob math o rwymedigaethau newyddion arnynt, pa un a fynant neu peidio. A ydyw yn beth i'w ryfeddu fod dyn o'r fath yn cael ei barchu a'i edmygu? Mae'r daioni mewnol, yr addfwynder ysbryd hwn i'w weld yn cael ei adlewyrchu gyda rhyw felusder a sirioldeb hyd yn oed ar y wynebpryd, nes ei wneud yn hawddgar a chariadus yr olwg arno. Ysprydola'r enaid â rhyw benderfynolrwydd a gwroldeb ardderchog fel ag i'w wneud yn alluog i anturio a chyflawni pethau mawrion. Mae'r gweithredoedd aruthrol hyny a ddarllenwn am danynt gyda'r fath edmygedd yn ffrwyth y teimlad gwladgarol, neu ryw gyfeillgarwch neilldu-ol, a sicr yw y rhaid fod serch mwy eang a chyffredinol yn alluog i gynyrchu pethau llawer mwy nerthol ac effeithiol. —Allan o "*Life of God in the Soul of Man*," gan Henry Scaigall. Dyma'r gwaith a gyfieithwyd gan y Parch. D. Davis, Castell Hywel, ac a gyhoeddwyd yn 1779.

Y DIWYGIAD.

Ychydig linellau a ysgrifenwyd ar gais cyfaill :

"Hyd y nod pe gallwn o gwbl, y mae haner dwsin o frawddegau yn rhy fach i ddarnodi pwnc mor bwysig.

Perthyn i'r Diwygiad (*Revival*—Adfywiad) ddwy elfen, neu ddwy egwyddor, un ddynol, un ddwyfol, ac ni ddeallir y naill heb help y llall. Mae'r Ysbryd sy'n tynu dyn at ddaioni yn holl-bresenol, y mae o'i amgylch ac o'i fewn.—Actau 17 : 28 ; ond y mae iddo ei drai a'i lanw. Bywyd yw, nid gwybodaeth ; goleuni, nid athrawiaeth ; cariad yw yn ei sail a'i sylwedd. Os esgyn dyn, fe gaiff fod Duw yn disgyn i gwrdd ag ef. - Iago 4 : 8.

Fe ddywedir fod colofn Memnon gynt yn ateb i bob awel o wynt, yn gyffelyb fe ddylai dyn, yn fwy nag y mae, ateb yn ddoeth i holl ofynion ei amgylchfyd—gofynion corff, enaid ac yspryd. Y newyn a'r syched oddifewn, awgrymant gyflenwad digonol oddiallan. Bydded y cais yn ddiffwdan. - Amos 8 : 11, 12. Peidiwch a gwybyddwch, &c. *Be still* and know, &c. - Ps. 46 : 10. Yn unig dysgwylier, ac yn ei amser da ei hun, Efe a ddaw ac a ddengys ei hun.

Y gair o gydymdeimlad pan syrth i'r galon adfydus a bair i'r dagrau saethu i'r llygaid. Fel y gwin newydd yn yr hen gostrelau, ni all lai na bydd dylifiad yr Yspryd i dywyll leoedd yr enaid yn peri aflonyddwch.

Dwed wrtho dy gwyn mae yn gwrando,
Ac yspryd at yspryd a ddaw :
Nes ydyw Efe nag anadlu,
Agosach na llygad na llaw."

Q.Q.

PRIODAS.

RHAGFYR 19, yn Alltyplacca, gan y Gweinidog, a cherbron y Cofrestrydd, Mr. Titus Evans, Mr. John Titus Rees, Castle View, Llanllwni, a Miss Elizabeth Williams, Ffinant Cottage, Llanwenog.

MARWOFION.

HYDREF 23, bu farw Mrs. Elizabeth Jones, anwyl briod Mr. John Jones, Butter Merchant, Tonypandy. Claddwyd yn nghladdfa Llethrddu, Trealaw prydnawn dydd Mercher, Hydref 28ain. Gweinyddwyd gan ei gweinidog y Parch. — Ellis (M.), Trealaw. 'Roedd yn bresenol hefyd y Parchn. D. G. Rees, Gellionen, ac E. R. Dennis, Treorchy.

"Cwrdd ar fynydd Seion
O mor felus fydd."

TACHWEDD 25, Anthony Edwards, gynt Cwmcanol, Pencarreg, yn 45 mlwydd oed. Bu'r ymadawedig farw ar y dydd uchod yn *Infirmary* Caerfyrddin, mewn canlyniad i ddamwain a gafodd ger Llangadog, drwy i wagen lawn o lô oedd dan ei ofal redeg dros ei glun. Yr oedd Anthony Edwards yn un o'r bobl ddiniwed, caredig, a chymwynasgar hyny fel yr oedd pawb o'i gydnabod yn teimlo'n hynod flin pan y clywsant am ei farwolaeth—heb son am ei berthynasau. Ond gadawodd mewn galar ar ei ol amryw frodyr a chwiorydd, a pherthynasau agos eraill lawer. Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono y Sadwrn canlynol yn mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

RHAGFYR 14, bu farw Levi Phillips, 61, Llewelyn Street, Aberdar, yn 69, mlwydd oed. Claddwyd dydd Iau yn y gladdfa gyhoeddus. Gwasanaethwyd yn y ty gan R. J. J. a'r Parch. E. R. Dennis, ac yn y gladdfa gan y Parch. Evan T. Evans, Highland Place. Yn marwolaeth Mr. Phillips collodd yr Hen Dy Cwrdd aelod a diacon ffyddlon, selog, a gofalus am ei gydgynulliad; collodd yr ardal gymydog siriol a hawddgar, a Mrs. Phillips briod a fu'n gydmar hapus ac anwyl am lawer o flynyddoedd. Dymunwn i'r weddw nawnddydd tawel weddill y daith, a cofion melus am y gyfeillach sydd yn awr wedi ei dori, ond i'w adnewyddu yn y man yn y cartref hwnt i'r llen.

MANION AC HANESION.

PANTDEFAID.—Llawenydd genym gofnodi rhodd werthfawr dderbyniwyd gan yr eglwys hon yn ddiweddar, sef nifer gyflawn o Lestri Cymundeb Arian, y rhai gynwysa gwpan unigol i bob aelod. Cyflwynwyd y rhodd gan Mr. a Mrs. Rees Thomas, Gwynionydd, yn goffadwriaeth am eu hunig fab John Lloyd. Defnyddiwyd y Llestri am y waith gyntaf

Rhagfyr y 6fed, a gwnaed cyfeiriadau at garedigrwydd y rhoddwyr, a gwnaeth y gynulleidfa amlygu eu diolchgarwch a'u gwerthfawrogiad o rodd mor ardderchog ac amserol.

LLANDYSSUL. — Y mae yn bleser genym longyfarch Miss Annie Mary Evans, merch Mrs. Evans a'r diweddar Mr. Ben Evans, gynt o Dancoed, ar ei gwaith yn pasio yn llwyddianus yr *Advanced Certificate, Associated Board, London*, mewn chwareu y berdoneg. Y mae Miss Evans yn un o organesau Capel y Graig. Uwchach yr êl eto.

ECHRYSLONRWYDD RHYFEL. — Byddai'n anodd gosod allan echryslonrwydd rhyfel yn fwy effeithiol nag a wnaeth Iarll Middleton mewn araeth ychydig ddyddiau yn ol. Yr oedd boneddiges newydd ddod yn ol o Belgium lle'r oedd wedi bod yn edrych ar ol clwyfedigion mewn yspyty yno. Bu ganddi luaws o Almaenwyr dan ei gofal. Yr oedd yno un oedd yn gofyn iddi yn barhaus - "A ydych chi'n meddwl y bydda i farw heno?" O'r diwedd gofynodd iddo, "Ydych chi'n ofni marw?" Atebodd yntau, "Pe byddech wedi gwneud y pethau wnaethum i yn y mis diweddaf, buasai arnoch chwithau ofn marw. Mi leddais fenyw mewn gwaed oer gyda phlentyn yn ei breichiau, ac wedi hyny mi leddais y plentyn." Gofynodd hithau "Paham y gwnaethoch chwi hyny?" Atebodd yntau, "Safai fy swyddog uwchlaw i mi a bygythiai fy lladd os na wnawn - ond ni anghofia' i byth yr olwg ar wyneb y plentyn bach, ac O, buasai'n dda genyf pe rhoddaswn fy mywyd i fyny cyn i mi ei wneuthur!"

ATHEIST.—Nid pawb wyr beth yw atheist. Darllenwn am sylwedydd tramor a ddywedai mai atheist yn Lloegr yw unrhyw ddyn fyddo yn gwahaniaethu oddiwrth unrhyw ddyn arall ar unrhyw bwnc beth bynag fo. Nid yw syniad y Cymro yn wahanol iawn am dano.

Y MEDDYG A'R PREGETHWR. — Y mae adroddiad Pwyllgor yn cynrychioli y ddau ddosparth uchod newydd ei gyhoeddi yn llyfryn swllt (Macmillan)—"Inquiry into Spiritual, Faith, and Mental Healing"—dyna amcan y Pwyllgor, ac y mae wedi cael sylw mawr yn y newyddiaduron. Yr oedd amryw enwogion eglwysig a meddygon clodfawr ar y Pwyllgor, a'r casgliad y deuant iddo yw nas gellir sicrhau gwellhad effeithiol ond yn mherthynas i glefydau gieuol a meddyliol. Ar hyd y llinellau hyny yn unig y gellir dysgwyl i Ffydd weithredu, ac yn y cyfeiriad hwnw y gellir dysgwyl i'r offeiriad neu'r pregethwr fod o help effeithiol i'r claf. Tipyn yn anmhenodol yw'r Adroddiad, ac y mae'n amlwg mai ffolineb yw anwybyddu'r help y medr y meddyg ei roddi—dyweder mewn twymyn beryglus, neu pan fo asgwrn wedi ei dori. Y mae'r "Christian Scientist" yn myned i eithafion pan yn honi fod yr eli sy'n gwella pob clwyf yn ei feddiant ef. Yr ydym yn credu mewn gweddi, ond y mae i weddi ei derfynau. Y mae cynghor Jupiter i'r dyn oedd yn ceisio ei help i gael y cart allan o'r rhigol yn werthfawr hyd heddyw,—"Dodwch eich ysgwydd wrth y whil"—Put your shoulder to the wheel. Y mae'r Bod Mawr yn helpu'r cyfryw sydd yn helpu eu hunain.

HEN LYTHYR. —Y mae genyf hen lythyr o fy mlaen y carwn gael ychydig oleuni yn ei gylch. Y cyfeiriad arno yw:—"Mr. Samuel Leonard, Cors-y-fran, Llanwenog Parish, near Lampeter, Cardiganshire, S. Wales." Ysgrifenir ef o York, a'r dyddiad yw May 6, 1806. Yr anerchiad yw—"Anwyl Frawd," oddiwrth yr hyn y gellir casglu mai yn Gymraeg y mae. Ceir cyfeiriad at Mr. James ac at D. J. Rees. Dywed ei fod yn ddrwg ganddo glywed am farwolaeth Mr. Thomas Davies. Terfyna "Ydwyf, eich anwyl frawd D. Jones." Carwn wybod pwy oedd y myfyriwr D. Jones, a phwy oedd ei "frawd" Leonard Samuel. Dywed D.J. ei fod wedi treulio yn agos dwy flynedd yn y Coleg a bod ei amser i ymadael yn agoshau.—*Q.Q.*

CONGL YR AWEN.

CARIAD.

Pe llefarwn a thafodau
Dynion ac angylion per ;
Pe cawn feddu'r gwybodaethau,
Deall holl ddirgelion ner ;
Pe bae'm ffydd mor gryf a nerthus
Fel i symud bryniau'r byd,
A phe porthwn yr anghenus
A'm trysorau oll i gyd.

Pe bae genyf wych dosturi,
Hyfryd hir amynedd lân,
A phe rho'wn fy nghorff i losgi
O fy modd yn goelcerth dân ;
Proffwydoliaeth hoff uchelradd,
Gwyrthiol nerth pe rhoddid im' ;
Eto heb fod genyf *gariad*,
Gwagedd wyf, nid wyf fi ddim.

Gwybodaethau hwy a ballant,
Prophwydoliaeth derfydd hi ;
Seiliau cariad nid ysgogant,
Cynull adnewyddol fri ;
Ffydd a dry yn olwg wiwrudd,
Gobaith hoff yn fwyniant gwir ;
Erys cariad yn dragywydd
Ar ardaloedd nefol dir.

Reuben Davies (1808-1833).
(*Prydydd y Coed*).

Hiraethaf am y lleisiau gynt
A gwenau'm hoffus rai,
Fy Nuw a'u cludodd ar eu hynt,
Fe ni wna ddim ar fai.

Pa beth sy'n y dyfodol cudd
O ryfeddodau maith :
A'i byw a'i marw, 'nghred a fydd,
Trugaredd Duw a'u gwnaeth.

Os gwan f'amynedd i a bŷr
I oddef cur a phoen ;
Y gorsen ysig fe nis tŷr
Rhydd nerth i'w ddwyn a hoen.

Disgwyliaf felly'r Ddistaw Rwyf
Gerllaw y Ddistaw Fôr ;
Ond disgwyl ganddo Ef nid wyf
Un drwg ar dir na môr.

Nis gwn b'le dyrch ynysoedd Duw
Eu palmwydd ddail i'r nef ;
Ond gwn nas dianc un dyn byw
Fyth hwnt i'w ofal Ef.

John Greenleaf Whittier.

GWELLIANT GWALLAU.

Ymofynydd Rhagfyr.

Emyn tudalen 270, llinell 5, *rhodiaf.*
" " " " 12, *gwrendy'm.*
Eto tud. 283, ar ol "*A'th foli wnaf*" darllener "*Am oll fwynhaf.*"

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

NEW SERIES OF

Modern Handbooks of Religion.

Cr. 8vo. 256 pages. Two Shillings each net.

Books illustrative of the Principles and Faith of those who find the seat of Authority in Religion not in Church or Creed but in the Mind and Conscience and Experience of Mankind.

Volumes now ready.

Religion as affected by Modern Science and Philosophy. By Stanley A. Mellor, M.A., Ph.D.

Religion in Social and National Life. By H. D. Roberts.

The New Testament in the Light of Modern Knowledge. By H. Mc Lachlan, M.A., B.D.

THE LINDSEY PRESS, 5 Essex St., Strand, London, W.C.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

Fruit Trees, Roses and Shrubs.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: *Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),*

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss J. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Feed Your Children

With WELSH PORRIDGE, made from

PURE WELSH OATMEAL.

The greatest MEDICAL EXPERTS say it is the most nourishing food for everybody.

Order to-day from the Manufacturers—

T. E. JONES & CO., LLANDYSSUL.

The London City and Midland Bank Limited,

WITH WHICH IS INCORPORATED THE

NORTH AND SOUTH WALES BANK.

—ESTABLISHED 1836.—

Directors:

SIR EDWARD H. HOLDEN, BART., (Chairman and Managing Director).
WILLIAM GRAHAM BRADSHAW, ESQ., LONDON (Deputy-Chairman).

The Right Hon. Lord iredale, Leeds.
Sir Percy Elly Bates, Bart., Liverpool.
Robert Clover Beazley, Esq., Liverpool.
Sir William Benjamin Bowring, Bart., Liverpool.
John exand er Christie, Esq., London.
David Davies, Esq., M.P., Llandinam, Mont.
Frank Dudley Docker, Esq., C.B, Birmingham
Frederick Hynde Fox, Esq., Liverpool.
H. Simpson Gee, Esq., Leicester.
John Howard Gwyther, Esq., London.
rthur T. Keen, Esq., Birmingham.
The Right Hon. Lord Pirrie, K.P., London
The Right Hon. Lord Rotherham, Manchester
Thomas Royden, Esq., Liverpool.
William Fitzthomas Wyley, Esq., Coventry
Sir Guy Douglas rthur Fleetwood Wilson, K.C.B., K.C.M.G., G.C.I.E.

Authorised Capital ..	**£22,200,000**	**Subscribed Capital** ..	**£20,873,520.**
Paid up Capital ..	**£4,348,650**	**Reserve Fund** ..	**£3,700,000.**
	Deposits ..	**£93,833,580.**	

BRANCHES AND AGENCIES IN CARDIGANSHIRE AND CARMARTHENSHIRE:—

Aberayron, Aberystwyth, Aberporth, Ammanford, Brynamman, Cardigan, Carmarthen, Cross Hands, Crymmych, Drefach, Kidwelly, Lampeter, Laugharne, Llanon, Llanboidy, Llandilo, Llandyssul, Llanelly, Llanybyther, Newcastle Emlyn, New Quay, Pencader, Pontardulais, Pontrhydfendigaid, Pontyberem, St. Clears, St. Dogmael's, Tregaron, Whitland.